**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Rhagfyr 2009**

## DYFODIAD Y MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2009

**Adroddiad gan Shân Morris**
**Rheolwr Cynllunio Corfforaethol**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Rhoi gwybod i'r aelodau am y camau a gymerir tuag at ddyfodiad y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ('y Mesur').

### Cyflwyniad

**2.** Bydd y Mesur yn dod i rym fesul cam o Ionawr 2010 ymlaen. Mae'n dod yn lle'r diffiniad blaenorol o wella gwasanaethau cyhoeddus fel y nodweddir dan y gyfundrefn Gwerth Gorau, ac yn un sy'n rhoi ystyriaeth i faterion ehangach, sef effeithiolrwydd strategol, ansawdd ac argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesedd.

**3.** Dan Ran 1 o'r Mesur (Gwelliant), dynodir yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn 'Awdurdodau Gwelliant Cymru'.

**4.** Mae'r Mesur hefyd yn ceisio cryfhau'r prosesau Cynllunio Cymunedol fel ffordd i wella lles ardaloedd dros gyfnodau o 10-15 mlynedd.

**5.** Dan Ran 2 o'r Mesur (Cynllunio Cymunedol), dynodir yr awdurdodau tân achub yng Nghymru yn 'Bartneriaid Cynllunio Cymunedol' i gynghorau sir/bwrdeistref sirol.

**Gwybodaeth**

**6.** Mae'r Mesur yn cyflwyno newidiadau i brosesau cynllunio'r Awdurdod, a dull yr Archwilydd Cyffredinol o ymdrin ag archwiliadau perfformiad ac arolygu. Felly, mae hyn yn golygu bod angen cymryd nifer o gamau cyn y gellir ei roi ar waith yn llwyr ac yn ymarferol:

a. Canllawiau

**7.** Mae Adran 48 o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymreig i roi canllawiau i Awdurdodau Gwelliant Cymru. Bellach, mae'r Cynulliad yn ymgynghori ynglŷn â dwy fersiwn o ganllawiau Rhan 1 - sef un ar gyfer cynghorau sir/bwrdeistref sirol, a'r llall ar gyfer awdurdodau tân ac achub. Mae'r Cynulliad hefyd yn ymgynghori ynglŷn ag un fersiwn o ganllawiau Rhan 2 a fydd yn berthnasol i awdurdodau lleol a phob un o'u partneriaid cynllunio cymunedol.

**8.** Dylid cyflwyno ymatebion i'r Cynulliad ar Ran 2 erbyn y 15$^{fed}$ o Ionawr 2010, ac ar Ran 1 erbyn y 25$^{ain}$ o Ionawr 2010.

b. Cynllunio

**9.** Bydd angen i'r gwaith cynllunio cydlynedig gymryd ystyriaeth o'r ystod eang o brosesau, megis gwelliant a chynllunio ar gyfer lleihau risg, cynllunio'r gyllideb, ennyn perthynas â'r cyhoedd, sicrwydd yr ochr weithredol, archwilio ac arolygu.

**10.** Mae gwaith wedi cychwyn – mewn ymgynghoriad â'r Cynulliad a Swyddfa Archwilio Cymru – i roi cylch cynllunio priodol yn ei le, a hynny er mwyn ceisio symleiddio ac uno'r prosesau lle bo modd.

c. Archwilio ac Arolygu

**11.** Ni fydd cyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran archwilio ac arolygu ond yn berthnasol i Ran 1 o'r Mesur, gan nad yw cynllunio cymunedol yn cael ei ystyried yn gydnaws â methodolegau archwilio.

**12.** Bydd trefniadau dan Adrannau 17 i 19 o'r Mesur yn cyflwyno, i bob awdurdod tân ac achub, Asesiadau Corfforaethol sy'n edrych ymlaen, a'r Asesiadau Perfformiad sy'n edrych am yn ôl. Bydd canfyddiadau'r ddau beth yn cael eu crynhoi yn yr Adroddiadau Gwelliant Blynyddol a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd bob blwyddyn.

**13.** Oherwydd elfennau ôl-weithredol y Mesur, ni fydd rhai rhannau ohono'n dechrau'n llwyr tan Ebrill 2011. Felly, mae trefniadau archwilio wedi cael eu dyfeisio i ymorol am y cyfnod pontio rhwng nawr a Mawrth 2011.

d. Dangosyddion Perfformiad

**14.** Mae dyfodiad y Mesur yn dirymu'r gyfres o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol. At hynny, mae'r Safon Gwasanaeth ar gyfer ymateb i danau yn y cartref wrthi'n cael ei adolygu gan y Cynulliad.

**15.** Felly, bydd yr un gyfres o ddangosyddion ag yn 2009-10 yn parhau i gael eu casglu ac adrodd yn eu cylch ar ôl y 1af o Ebrill 2010, a hynny ar sail anstatudol hyd oni fydd cyfres statudol newydd wedi ei chyflwyno.

**Argymhellion**

**16.** Bod yr aelodau'n:

(a) nodi'r camau a gymerir tuag at ddyfodiad y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; a

(b) chytuno y bydd ymateb yr Awdurdod, oherwydd y dyddiad cau ar gyfer ymateb i ymgynghoriad y Cynulliad ynglŷn â'r canllawiau drafft, yn cael ei gymeradwyo trwy'r Cadeirydd a'r Clerc.